The Welsh Music Guild Names EMYR AFAN OBE
Chair of the Board, Effective October 2024

The Directors of the Welsh Music Guild have named Emyr Afan OBE as Chair of the Board, effective October 2024. He will succeed Richard Thomas, who will remain on the Board as Deputy Chair, after 13 years of service.

"Emyr Afan is an esteemed leader who has become an invaluable voice in Wales, and we are thrilled that he has agreed to assume the role of Chair. Drawing on his vast experience, Emyr will expertly guide the Welsh Music Guild into new ventures and is already creating top priority areas for the Board. We will benefit tremendously from Emyr Afan's expertise and guidance, and we are lucky to have him as our next Chair", said Thomas.

"I am honoured to have the opportunity to serve as Chair of the Welsh Music Guild at this important moment in the Welsh Music Guild's history and look forward very much to building on the Guild's great work over the next few years. I feel deeply privileged to follow in the footsteps of some of the highly respected broadcasters of our time such as John Edwards, Geraint Stanley Jones and others like Aneirin Talfan Davies and Dr Terry James who have chaired the organisation that has been in existence since 1955", Afan said.

In 1997, Emyr Afan founded Afanti Media (formerly Avanti Media), and as Chief Executive Officer, he has built one of the longest-standing and most successful TV production companies in Wales, with the company celebrating 27 years in broadcasting. A proven creative thinker and award-winning programme maker, Emyr has recently won two Baftas for Best Entertainment with 'Luke Evans Showtime!' and 'Max Boyce at 80'. Afanti is currently Cardiff Business of the Year and Emyr has been nominated for a second year running as Entrepreneur of the Year at the Cardiff Business Awards. Emyr is a keen musician himself, a former recording artist and classically-trained tenor who has this year been awarded an OBE for services to Media and Music in the King's Birthday Honours List.

The Welsh Music Guild

The Welsh Music Guild was established in 1955 to encourage the understanding and appreciation of the music of composers of Welsh origin and the composers of any nationality resident in Wales. The Guild also encourages a high level of performance practice and fosters awareness and observation of professional issues within Wales and to this end encourages performers and musicologists to take an active role in workings of the Guild. Those interested in joining as a member should contact the Guild at Tŷ Gwyn, 111 Heol Isaf, Radyr, Cardiff CF15 8DW.

Enwir EMYR AFAN OBE fel Cadeirydd y Bwrdd gan Gymdeithas Cerddoriaeth Cymru, yn dod i rym ym mis Hydref 2024

Mae Cyfarwyddwyr Cymdeithas Cerddoriaeth Cymru wedi enwi Emyr Afan OBE yn Gadeirydd y Bwrdd, a ddaw i rym ym mis Hydref 2024. Bydd yn olynu Richard Thomas, a fydd yn parhau i fod ar y Bwrdd fel Dirprwy Gadeirydd, ar ôl 13 mlynedd o wasanaeth.

"Mae Emyr Afan yn arweinydd uchel ei barch sydd wedi dod yn llais amhrisiadwy yng Nghymru, ac rydym wrth ein bodd ei fod wedi cytuno i gymryd rôl y Cadeirydd. Gan dynnu ar ei brofiad eang, bydd Emyr yn arwain Cymdeithas Cerddoriaeth Cymru i fentrau newydd gyda'i arbenigedd, ac mae'n creu prif feysydd blaenoriaeth ar gyfer y Bwrdd yn barod. Byddwn yn elwa'n aruthrol o arbenigedd ac arweiniad Emyr Afan, ac rydym yn ffodus i'w gael fel ein Cadeirydd nesaf", meddai Thomas.

"Mae'n anrhydedd cael y cyfle i wasanaethu fel Cadeirydd Cymdeithas Cerddoriaeth Cymru ar yr adeg bwysig hon yn hanes Cymdeithas Cerddoriaeth Cymru ac edrychaf ymlaen yn fawr at adeiladu ar waith gwych y Gymdeithas dros y blynyddoedd nesaf. Mae'n fraint fawr i mi gael dilyn yn ôl traed rhai o ddarlledwyr uchel eu parch ein cyfnod megis John Edwards, Geraint Stanley Jones ac eraill fel Aneirin Talfan Davies a Dr Terry James sydd gyd wedi cadeirio ers i'r sefydliad dechrau ym 1955", meddai Afan.

Ym 1997, sefydlodd Emyr Afan Afanti Media (Avanti Media gynt), ac fel Prif Swyddog Gweithredol, mae wedi adeiladu un o'r cwmnïau cynhyrchu teledu mwyaf hir-sefydlog a llwyddiannus yng Nghymru, gyda'r cwmni'n dathlu 27 mlynedd ym myd darlledu. Yn feddyliwr creadigol profedig ac yn wneuthurwr rhaglenni arobryn, mae Emyr wedi ennill dwy Bafta am yr Adloniant Gorau yn ddiweddar gyda 'Luke Evans Showtime!' a 'Max Boyce at 80'. Ar hyn o bryd Afanti yw Busnes y Flwyddyn Caerdydd ac mae Emyr wedi'i enwebu am yr ail flwyddyn yn olynol fel Entrepreneur y Flwyddyn yng Ngwobrau Busnes Caerdydd. Mae Emyr hefyd yn gerddor profiadol, yn gyn artist recordio a thenor sydd wedi'i hyfforddi'n glasurol ac sydd wedi derbyn OBE eleni am wasanaethau i'r Cyfryngau a Cherddoriaeth yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin.

Cymdeithas Cerddoriaeth Cymru

Sefydlwyd Cymdeithas Cerddoriaeth Cymru yn 1955 er mwyn hybu'r ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o gerddoriaeth gan gyfansoddwyr Cymreig yn ogystal â chyfansoddwyr sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru. Mae'r Gymdeithas hefyd yn annog lefel uchel o ymarfer perfformio gan feithrin ymwybyddiaeth sy'n arsylwi ar faterion proffesiynol yng Nghymru; i'r perwyl hwn mae'n annog perfformwyr a cherddolegwyr i ymddiddori yng ngwaith y Gymdeithas. I ymaelodi â'r Gymdeithas, cysylltwch â Chymdeithas Cerddoriaeth Cymru', Tŷ Gwyn, 111 Heol Isaf, Radyr, Caerdydd CF15 8DW.